# Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org | Gwaelod-y-garth | Mehefin 2013


**Llundain i Gaerdydd mewn 24 awr**

# Taith y dwsin dewr!

**Mae dwsin o'n haelodau ifanc a'u ffrindiau'n bwriadu rhedeg mewn ras gyfnewid bob cam o Lundain i Gaerdydd yn nechrau Gorffennaf i godi arian at ein helusen gyfredol, Ambiwlans Awyr Cymru.** Y nod ydy cwblhau'r daith mewn 24 awr gan adael Llundain nos Wener, Gorffennaf 5ed a chyrraedd stadiwm y Mileniwm erbyn nos Sadwrn.

A phwy, meddech chi, ydy'r dwsin dewr fydd yn cymryd eu tro i deithio rhwng 1 a 13 milltir yr un? Wel, dyma nhw: *Aled Davies; Rhodri Gomer; Geraint Huws; Geraint Passmore; Catrin Passmore; Carys Osborne; Anwen Lewis; Catrin Davies; Ffion Davies; Rhys Cahill ac Alex Lewis.*

### 160 milltir

Gyda llaw, mae gwefan yr AA yn honni fod 150 milltir rhwng gorsaf Paddington a chanol Caerdydd – ond bod hynny ar yr M4! Mae'r daith hon, ar ffyrdd llai, yn 160 milltir. Bydd pob un yn eu tro yn cyfnewid â'i gilydd ac yna'n cael eu cludo mewn ceir i'w lleoliad nesaf lle bydd hi'n dwrn iddyn nhw redeg eto.

### Sut i gyfrannu

Yn bwysig iawn, maen nhw'n ymbil arnoch ni, fel aelodau Bethlehem, i gyfrannu tuag at yr elusen am iddyn nhw gyflawni'r gamp. Ewch at y wefan isod a daw'r cyfan yn eglur:

https://mydonate.bt.com/fundraisers/bethlehemgwaelodygarth#

**Hefyd yn y rhifyn hwn:**

- Hanesion Teithiau'r Cwrdd Merched
- Lluniau Oedfaon Ann Griffiths a Gŵyl Ddewi
- Patrwm Oedfaon yr Haf
- Suliau o hyn i'r Nadolig
- ac ecsliwsif am datws newydd a thatŵs Yr Eglwys Newydd!

## Alun yn Ddarpar Lywydd



**Llongyfarchiadau i'n bugail a gweinidog, y Parchedig Ddr. R. Alun Evans, ar gael ei ethol yn Llywydd nesaf Undeb Annibynwyr Cymru.** Bydd yn esgyn i'r gadair ymhen y flwyddyn ac yn parhau yn y swydd am ddwy flynedd.

Daeth yn weinidog arnom ym Methlehem yn 2008 – roedd eisoes wedi bod yn fugail ar Fethel Caerffili er 2001, ar ôl ei ymddeoliad o fyd darlledu. Cafodd ei fagu'n fab y mans yn Llanbrynmair, yn un o ddau frawd ddaeth yn weinidogion â'r Annibynwyr.

Mae'n gyn Gadeirydd Cyfundeb Dwyrain Morgannwg o'r Annibynwyr ac yn aelod o Bwyllgor Gweinyddol yr Undeb. Mae'n gyn Lywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn Gymrawd o'r Brifwyl er 2007.

## Suliau

**O'r Haf hyd y Nadolig**

**Gorffennaf**

**7** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**14** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**21** Sul y Cyfundeb – oedfa yn Ysgol Pen y garth, Penarth am 10.00
**28** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans (Efail Isaf yn ymuno â ni)

**Awst**

**4** Cymun yn Efail Isaf (Y Parchg. Eirian Rees)
**11** Oedfa dan ofal Ian Hughes ym Methlehem
**18** Oedfa yn Efail Isaf
**25** Oedfa dan ofal Arwel Ellis Owen ym Methlehem

**Medi**

**1** Emlyn Davies
**8** Y Parchg.Ddr. R.Alun Evans
**15** Y Parchg. Allan Pickard
**22** Y Parchg.Ddr.R. Alun Evans
**29** Y Parchg. John Gwilym Jones

**Hydref**

**6** Y Parchg. Ieuan Davies
**13** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**20** Oedfa Ardal
**27** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

**Tachwedd**

**3** Cwrdd Diolchgarwch
**10** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
**17** Elenid Jones - Ymgyrch yr Annibynwyri helpu Haiti.
**24** Y Parchg.Ddr.R. Alun Evans

**Rhagfyr**

2 Dim trefniant eto
**8** Ymarfer i'r Ysgol Sul yn y bore Oedfa Gymun am 5yh - Y Gweinidog
**15** Ymweld â Chartre Henoed Oedfa Naw Llith a Charol am 4.30yh
**22** Gwasanaeth Nadolig y Plant
**25** Gwasanaeth Bore Nadolig (yr Aelodau)
**29** Y Parchg. Dafydd Owen

## Cyfeiriadau:


**Gweinidog:**
**Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,**
***Ffôn:*** 02920 520 854
***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net
**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk


***Teithiau'r Cwrdd Merched 1***

# Ymweliad â'r Eglwys Gadeiriol yn Llandaf

Ar ddechrau mis Ebrill, trefnodd Judith Evans ein hymweliad â'r Eglwys Gadeiriol. Ein tywysydd gwybodus, diddorol oedd Mrs Ruth Watts. Hyfryd iawn oedd cael tywysydd rhugl yn y Gymraeg. Eglurodd Ruth y cynhelir rhai gwasanaethau uniaith Gymraeg yn yr Eglwys yn ystod yr wythnos ac fe ddefnyddir ychydig o Gymraeg yn y prif Wasanaethau ar y Sul. Cynhelir chwe Gwasanaeth bob Sul. Dechreuwyd adeiladu ar y safle yn y flwyddyn 1120 ac fe gysegrwyd



yr eglwys i'r Seintiau Teilo, Dyfrig ac Euddogwy, hefyd i Pedr a Paul. Chwalwyd rhannau helaeth o'r Eglwys ar Ionawr $2^{ail}$ 1941, pan syrthiodd bom ar y tir tu allan. Wedi'r rhyfel aed ati i atgyweirio a gosod y cerflyn arbennig o waith Jacob Epstein yng nghorff yr adeilad.

Gwelsom yr Organ newydd hardd sydd wedi costio £1.5 miliwn. Un o'r trysorau celf welsom oedd y Triptych enwog o waith Rossetti sy'n cael ei warchod tu ôl i farrau haearn cryf am ei fod yn werth tua £6miliwn! Tynnwyd ein sylw at nifer o bethau eraill diddorol gan gynnwys ffenest liw fodern o waith John Piper, hefyd gwaith arbennig Frank Loper, yng Nghapel y Forwyn Fair. Cawsom gip ar benglog Sant Teilo a arferid ei ddefnyddio fel cwpan cymun! Efallai mai ein hoff ffenest liw ni'r merched oedd yr un a luniwyd i gofio Dorcas, Ruth ac Anna. Roeddem yn ddiolchgar iawn i Ruth Watts am ein cyflwyno i gymaint o drysorau'r Eglwys. Fydd ymweliad achlysurol â'r Gadeirlan fyth yr un fath i ni mwyach.

***Eirlys Davies, Radur***

Dewch i'r
**Swper Haf**
yn y festri, Nos Sul, Gorffennaf 14,
am 5.00 o'r gloch
adeg cyflwyno siec i'r Ambiwlans Awyr

*__Teithiau'r Cwrdd Merched 2__*

# Taith i Balas yr Esgob



Ar un o ddiwrnodau brafiaf y flwyddyn, aeth deunaw o Ferched Bethlehem ar eu taith flynyddol ym mws mawr cyfforddus Dafydd. Cychwyn yn eitha prydlon o sgwar Radyr a theithio i'r gorllewin. Roedd rhaid, wrth gwrs, aros am goffi a chlonc ym Mhont Abram ac ymlaen wedyn i Balas yr Esgob yn Abergwili ar lan afon Tywi. Adeilad hynafol yn dyddio nôl i'r unfed ganrif ar bymtheg, a fu'n gartref i esgobion Tyddewi o 1542 tan 1974. Yma hefyd bu William Salesbury yn cyfieithu'r Testament Newydd yn 1567.

Erbyn hyn mae'r adeilad yn gartref i amgueddfa Sir Gaerfyrddin. Ar y bws, Eirlys yn ei ffordd ddiahafal yn rhoi braslun o'r hyn fydden ni'n ei weld yno ac, ar ôl cyrraedd, Ann Dorset o'r Amgueddfa yn rhoi sgwrs fanylach gan ein cyflwyno i'r amgueddfa a'i thrysorau. Ac roedd yno drysorau – arteffactau yn adrodd hanes amrywiol y sir yn cychwyn o oes y mamothiaid a dilyn llinell amser heibio i aur y Rhufeiniaid i'r dref sirol brysur sydd ohoni heddiw.

Wrth fynd i mewn, y peth cyntaf a welais oedd gweddillion hen dderwen Caerfyrddin mewn cas gwydr yn y cyntedd a chofio'i gweld ynghanol y stryd wrth deithio ers talwm o'r De i'r Gogledd. Buon ni wedyn yn ceisio darllen copi o gyfieithiad William Salesbury, rhyfeddu at y setlau a'r dreseli derw yn gyforiog o lestri'r cyfnod; gweld cadair freichiau Gruffydd Jones Llanddowror un a sefydlodd yr ysgolion cylchynnol a gwerthfawrogi'r unig baentiad o Madam Bevan, y ddyngarwraig, yr addysgwraig a noddwraig yr ysgolion cylchynnol a phasio cadair eisteddfod Caerfyrddin 1819. Mynd heibio i gasgliad hyfryd o lwyau caru, a mynd i mewn i'r ystafell ysgol gyda'i desgiau a'i habacus, ei chloch, ei 'fodiwlator' a'i desgiau a llun o'r Frenhines Fictoria ar y wal! Roedd ystafelleoedd y bwthyn yn ddiddorol ac mae'r capel yn dal i gael ei ddefnyddio heddiw. Roedd rhywbeth yno i dynnu sylw pawb. Lleoliad ar lan afon Tywi ac un neu ddwy ohonon ni wedi eistedd yn y gerddi yn mwynhau'r tawelwch a'r heulwen. Yna ymlaen â ni i Gaerfyrddin am damaid i fwyta ac ychydig o siopa. Diwrnod da.

*[Margaret Roberts]*

**Gair gan y gweinidog**

# Tatws, tatŵs a thabŵs

Pam plannu tatws? A hynny'n hwyrach eleni oherwydd y gwanwyn oer. Onid ydyn nhw'n rhatach i'w prynu mewn archfarchnad na'i plannu yn yr ardd?

Mae'r ddadl am archfarchnadoedd yn lladd y siopau bach lleol yn un a glywsoch droeon. Fel chithe, rwy'n rhagdybio, cefnogi'r siopau lleol yw'r flaenoriaeth. Mae'r siopau lleol yn fwy rhan o gymuned na'r archfarchnadoedd. Ond fel chithe hefyd, rwy'n euog o defnyddio'r archfarchnadoedd yn achlysurol am fyrdd o resymau hunanol. Y siop leol ddiweddara i agor yn y cyffiniau yma yw siop TATŴS! O leia', mae'r arwydd i fyny. A ddylwn i gefnogi'r cerfluniwr corff hwn?

Fe ddywedir mai Capten Cook, meistr yr HMS Endeavour, a welodd gyntaf yr arfer o liwio'r corff pan laniodd ei long yn Samoa. Bu'n arfer yng ngwledydd Asia cyn hynny. Yn Tahiti a Seland Newydd gwelodd Capten Cook sut byddai'r brodorion, llwyth y Maori yn benodol, yn marcio'r corff "indelibly" – hynny yw yn annileadwy [*I luv Elsie* – ond sut mae esbonio hynny i Shirley sy' bellach yn wraig i chi!]. Gan ddod yn nes adref i Brydain, a ninnau ar drywydd tarddiad yr arfer, onid ystyr y Picts yw "*painted people ?"*

Cyfyd dau gwestiwn. Beth fyddai'r geiriau annileadwy y byddai'r Celt hwn am eu rhoi ar fy nghorff? Ac ar ba ran o'r corff y byddai'r geiriau hynny'n ymddangos?

Rydych chi, fel finnau, wedi sylwi fod cael tatŵ bellach yn rhyw fath o symbol o statws; yn beth cŵl, ac ar ei orau yn gynnil ac atyniadol. Na feindiwch y 'trydar' a'r 'tecstio' fel modd o genhadu. Onid y ffordd ymlaen i Gristnogion mentrus yw cael y neges 'Duw cariad yw' ar ein talcen? Pa neges fwy annileadwy sydd ei hangen ar gredinwyr ac anghredinwyr fel ei gilydd? Digon gwir. Ond onid yn nyfnder enaid, yn hytrach nag ar groen, y mae'r neges honno bwysicaf? Rhag i chi boeni'n ormodol pa olwg fydd ar y Gweinidog pan welwch chi e nesaf, neu beth mae e'n guddio, mae'r tatŵ yn tabŵ ! Fe fodlonna i ar y tatw sy'n blaguro yn yr ardd.

***R. Alun***


Y Parti Merched fu'n cyfrannu i'r gwasanaeth ym Methlehem, ar fywyd a gwaith Ann Griffiths (rhagor ar y dudalen gyferbyn).

## NEWYDDION

**Llongyfarchiadau i**

- **Nerys Pollard** ar ei dyweddïad â Hywel Bennet o Gaerfyrddin
- **Sara Gibson,** Pontcanna, ar ei phenodiad fel Swyddog Cyfathrebu elusen Achub y Plant
- **Indeg Williams,** Yr Eglwys Newydd, ar ei phenodiad fel athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Coed y Gof.
- **Ken a Judith Evans**, Pentyrch, ar ddathlu 40 mlynedd o briodas
- **Wynford a Meira Ellis Owen**, Creigiau, ar ddathlu 40 mlynedd o briodas
- i **Mari a Gareth Williams** ar enedigaeth **Jac Llew**, wyr bach i **Sian Osborne**, Yr Eglwys Newydd.
- ac i'r cyfan o **bobl ifanc Bethlehem** sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau gradd eleni.

**Croeso'n ôl i:**

- **Vera Evans,** Yr Eglwys Newydd, ar ôl ei chyfnod yn yr ysbyty.

**Rydyn ni'n cydymdeimlo â:**

- **Sianed King,** Llandaf, sydd wedi colli ei mam yng Nglyn Nedd. Cafodd Sianed ei hun lawdriniaeth yn ddiweddar ac rydyn ni'n falch o ddeall ei bod yn gwella.
- **Huw Williams**, Yr Eglwys Newydd, sydd wedi colli ei fam yn Y Bala.
- **June Lloyd,** Radur, sydd wedi colli ei brawd.
- **Wyndham Richards,** Radur, sydd wedi colli ei fodryb.

### Deufis yr Haf – i'ch atgoffa!

**Gorffennaf 7ed**
Y Gweinidog fydd gyda ni ac nid Jeff Williams, gan y bydd tri phlentyn y cael eu bedyddio. Hefyd ar y Sul hwnnw byddwn yn enwebu Elusen ar gyfer y Flwyddyn 2013-2014.

**Gorffennaf 14eg**
Oedfa Gymun gyda'r Gweinidog, byddwn yn pleidleisio am yr elusen o'n dewis.
***Swper Haf am 5.00 o'r gloch a chyflwyno siec i Ambiwlans Awyr Cymru.***

**Gorffennaf 21ain**
Dim Oedfa yn Methlehem, Eglwysi'r Cyfundeb yn dod at ei gilydd i addoli yn Ysgol Pen y garth, Penarth am 10am hyd 11.30am.

**Gorffennaf 28ain**
Oedfa dan ofal y Gweinidog ac aelodau Efail Isaf yn ymuno â ni.

**Awst 4ydd**
Cymun yn Efail Isaf dan ofal Eirian Rees (10.45)

**Awst 11eg**
Oedfa ym Methlehem dan ofal Ian Hughes

**Awst 18ed**
Oedfa yn Efail Isaf (10.45)


**Awst 25ain**
Oedfa ym Methlehem dan ofal Arwel Ellis Owen

# “Ann”









Eleni,dewiswyd bywyd a gwaith yr emynyddes Ann Griffiths fel y thema ar fore Sul y Blodau. Cafodd Bethlehem ganiatâd Cwmni Theatr Maldwyn i gyflwyno rhai o ganeuon y sioe “Ann” a thrwy blethiad o’r rhain, sgript y gweinidog ac emynau’r ferch o Ddolwar Fach, cafwyd oedfa bortread gofiadwy.
Dan arweiniad Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd, cafwyd cyfraniadau gan blant Bethlehem,(uchod), y parti merched, (y dudalen gyferbyn) Ieuan Wyn ( dde uchod), a chôr cymysg o blith yr aelodau (isod) a’r tri chyflwynydd – Cath Edwards, Gwenno Huws a Rhodri-Gwynn Jones (chwith uchod). Yn y canol – y ddau angor cerddorol, Delyth Evans, yr arweinyddes, a Peter Wyn Thomas, yr organydd.



## *Cau pen y mwdwl*

*Bu'n hymdrech codi arian yn llwyddiant ysgubol eleni. Fel y cofiwch, Ambiwlans Awyr Cymru yw'r elusen a enwebwyd gennych. Fe gofiwch hefyd i ni ddechrau'n hymgyrch gyda chyngerdd uchelgeisiol iawn. Ymhlith y gweithgareddau eraill megis stondin gacennau bob mis, canu carolau, gwerthiant llyfrau, cyfraniad y Cwrdd Merched a'r sioe ffasiwn, ar y cyd efo Minny Street, saif y cyfanswm anrhydeddus oddeutu £5,500. Dyma'r elw gorau erioed, ac mae rhagor i ddod pan fydd y criw ifanc yn rhedeg o Lundain i Gaerdydd(gweler y dudalen flaen). Byddwn yn cyflwyno'r siec derfynol yn ein Swper Haf am 5 o'r gloch nos Sul Gorffennaf 14eg. Dewch a'ch eitemau, yn ogystal â phlatiaid o rywbeth i'w fwyta!*

*Ond mae'n bryd i ni droi ein meddyliau at elusen y flwyddyn nesaf. Cynhelir yr enwebu ar Orffennaf 7ed a'r pleidleisio ar fore Sul y 14eg, gan gyhoeddi'r canlyniad yn ein Swper Haf. Ar ran y gweithgor, can mil ddiolch i BAWB am ymdrech lew eleni. Ymlaen i 2013/14!!*

**Marian Evans**

### *Wythnos Cymorth Cristnogol*

Bu nifer o'r aelodau o gwmpas y pentre yng Ngwaelod-y-garth yn casglu yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai. Roedd yr elw eleni dros £900. Diolch yn fawr i Ian Hughes am drefnu'r casglu ac i'r holl gasglyddion fu'n curo'r drysau.

### *Bore Coffi*

Cynhaliwyd Bore Coffi yn y festri at Gymorth Cristnogol gyda'r gobaith o wahodd pobl y pentre yng Ngwaelod-y-garth atom ar fore Sadwrn Fehefin 25ain. Roedd yn fore hwyliog er mai ychydig o drigolion y pentre ymunodd â ni. Ond gobeithiwn drefnu rhywbeth tebyg eto'n fuan. [Mae bwriad i drefnu Bore Coffi i Elusen Nyrsys Macmillan yn y Festri ar fore Sadwrn Medi 28ain.]

### *Holiadur yr aelodau*

Ydych chi wedi ateb yr holiadur anfonwyd i bob aelod ym Methlehem? Do, Naddo neu heb ateb eto?

Mae nifer eisoes wedi ymateb a bydd Rhodri Gwynn yn ceisio crynhoi'r ymatebion cyn bo hir ac yna bydd siawns i geisio gweithredu rhai o'r syniadau ac awgrymiadau.

Hwn ydy ein cyfle ni i gyd i fynegi ein barn, cynnig syniadau a chynnig helpu.

**Felly, anfonwch eich atebion!**



Bore Sul Dathlu Gŵyl Ddewi







Cân! Stori! Gwledd!



